

TGAU



TGAU CBAC CYMRAEG AIL IAITH

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2017
I'w ddyfarnu o 2019

Fersiwn 6 Tachwedd 2021

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.



CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Newidiadau yn Adran 3.2 (Trefniadau'r Asesiad Diarholiad) i esbonio bod asesiadau Uned 1 ac Uned 2 yn digwydd ar ddyddiadau a benderfynir gan CBAC	15 & 17
3	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll, y trosglwyddo marciau Asesu Di-arholiad a'r rheol derfynol.	19
4	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru'. Er eglurder, mae'r cyfeiriad blaenorol at ' <i>...pob asesiad ar ffurf arholiad</i> ' wedi'i newid i ' <i>...uned 3 a 4.</i> '	19
5	Rydym wedi tynnu gwybodaeth nad yw'n berthnasol bellach ynghylch gwirio DVDs.	15
6	Newidiwyd Adran 3.2 (Trefniadau'r Asesiad Diarholiad) i egluro y gall y dyddiadau penodol ar gyfer asesu Uned 1 ac Uned 2 ddigwydd yn ystod tymor y gwanwyn neu dymor yr haf. Mae hyn yn dibynnu ar ddyddiad y Pasg bob blwyddyn.	15 a 17



TGAU CBAC mewn CYMRAEG AIL IAITH

I'w addysgu o 2017
I'w ddyfarnu o 2019

Mae'r fanyleb hon yn bodloni Meini Prawf Cymeradwyo TGAU Cymraeg Ail Iaith ac Egwyddorion Cymwysterau TGAU sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TGAU newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2017

	Tudalen
Crynodeb o'r Asesu	2
1. Cyflwyniad	3
1.1 Nodau ac amcanion	3
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	4
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg	4
1.4 Bagloriaeth Cymru	5
1.5 Persbectif Cymreig	5
1.6 Gorgyffwrdd a Chyfyngiadau ar Gofrestru	5
2. Cynnwys y Pwnc	6
2.1 Gofynion iaith	8
2.2 Uned 1	10
2.3 Uned 2	11
2.4 Uned 3	12
2.5 Uned 4	13
3. Asesu	14
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	14
3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad diartholiad	15
4. Gwybodaeth dechnegol	19
4.1 Cofrestru	19
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	20
Atodiad 1: Cynllun marcio Uned 1	21
Atodiad 2: Cynllun marcio Uned 2	23

TGAU CYMRAEG AIL IAITH

CRYNODEB O'R ASESIAD

Uned 1: Ymateb ar lafar i sbardun gweledol Asesiad diartholiad: 6 – 8 munud (pâr) 8 – 10 munud (grŵp o dri) 25% o'r cymhwyster	50 marc
1 dasg Siarad (10%) Gwranddo (15%) Tasg pâr/grŵp o dri yn seiliedig ar sbardunau gweledol a ddarperir gan CBAC i symbylu trafodaeth. Bydd yr asesiad yn cynnwys dwy ran i'w cynnal yn y drefn ganlynol: • gwylio clip oddeutu 2 funud dwy waith a llenwi taflen benodol a fydd yn cydfynd â'r clip • trafodaeth rhwng pâr/grŵp o dri ar yr hyn a wylwyd. Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill yn unrhyw ran o'r asesiad.	
Uned 2: Cyfathrebu ag eraill Asesiad diartholiad: 6 – 8 munud (pâr) 8 – 10 munud (grŵp o dri) 25% o'r cymhwyster	50 marc
1 dasg Siarad (20%) Gwranddo (5%) Trafodaeth pâr/grŵp o dri yn seiliedig ar sbardunau megis cyfuniad o graffiau, lluniau a thestunau darllen byr a ddarperir gan CBAC. Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill yn unrhyw ran o'r asesiad.	
Uned 3: Adroddiadol, penodol a chyfarwyddiadol Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud 25% o'r cymhwyster	100 marc
Darllen (15%) Ysgrifennu (10%) Tasgau darllen gydag ymatebion di-eiriau ac ysgrifenedig, yn cynnwys un dasg yn cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, un dasg prawf ddarllen a thasgau ysgrifennu. Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill yn unrhyw ran o'r asesiad.	
Uned 4: Disgrifiadol, creadigol a dychmygus Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud 25% o'r cymhwyster	100 marc
Darllen (10%) Ysgrifennu (15%) Tasgau darllen gydag ymatebion di-eiriau ac ysgrifenedig a thasgau ysgrifennu. Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill yn unrhyw ran o'r asesiad.	

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd Uned 1 ar gael yn haf 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny).

Bydd Uned 1, 2, 3 a 4 ar gael yn haf 2019 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster am y tro cyntaf yn haf 2019.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/1166/2

TGAU CYMRAEG AIL IAITH

1 CYFLWYNIAD

1.1 Nodau ac amcanion

Bydd y fanyleb TGAU hon mewn Cymraeg ail iaith yn galluogi ymgeiswyr i:

- ddeall a defnyddio'r Gymraeg ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd
- datblygu sgiliau a strategaethau dysgu iaith er mwyn galluogi ymgeiswyr i gyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus a digymell mewn sefyllfaoedd perthnasol a chyd-destunau penodedig
- datblygu sgiliau a strategaethau dysgu iaith er mwyn galluogi ymgeiswyr i ddatblygu eu gafael ar y Gymraeg ymhellach
- datblygu sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu mewn modd integredig, gan bwysleisio sgiliau gwrando a siarad
- defnyddio'r Gymraeg mewn astudiaethau pellach, yn y gweithle ac yn eu cymunedau
- meithrin chwilfrydedd ynglŷn â'r Gymraeg.

Mae i'r cymhwyster hwn ddwy uned asesiad allanol sydd wedi'u pwysoli'n gyfartal a dwy uned asesiad mewnol. Mae'r ddwy uned asesiad allanol yn profi sgiliau Darllen ac Ysgrifennu tra bo'r ddwy uned asesiad mewnol yn profi sgiliau Llafar a Gwrando.

Wrth gynllunio'r fanyleb hon, mae ystyriaeth ofalus i hyd amser arholiadau a'r nifer o gwestiynau wedi sicrhau cydbwysedd rhwng asesiad cadarn ac ymarferoldeb. Bydd mathau amrywiol o gwestiynau a chyfarwyddiadau clir yn anelu at wneud yr asesiad di-haen hwn yn hygyrch i ymgeiswyr o bob gallu.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yn nodweddiadol ar gyfer cyfnod allweddol 3 ac mae'n gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio Cymraeg ail iaith naill ai ar lefel UG neu Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r ymgeiswyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ymgeiswyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.icq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y ymgeiswyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai ymgeiswyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Dystysgrif Her Sgiliau Tystysgrif Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, rhaid i ymgeiswyr ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai cynnwys y cyfleoedd hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth ymgeiswyr o'r byd o'u cwrpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

1.6 Gorgyffwrdd a Chyfyngiadau ar Gofrestru

Mae'r arholiadau hyn ar gael ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi dilyn Rhaglen Astudio Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae'r arholiadau ar gael yn ogystal ar gyfer ymgeiswyr ddechreuodd astudio Cymraeg ail iaith ar ôl Cyfnod Allweddol 3. Nid yw'r arholiadau ar gael ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi dilyn rhaglen Astudio Cymraeg trwy gydol Cyfnod Allweddol 3. Gofynnir i bennaeth pob canolfan arwyddo ffurflen yn nodi nad oes unrhyw un o'r ymgeiswyr a gofrestrir i sefyll y cymhwyster wedi dilyn rhaglen Astudio Cymraeg trwy gydol Cyfnod Allweddol 3.

2 CYNNWYS Y PWNC

Mae pedair uned yn y cymhwyster hwn: mae Uned 1 ac Uned 2 yn asesiad diarholiad siarad a gwranddo, mae Uned 3 ac Uned 4 yn arholiad darllen ac ysgrifennu. Mae'r cwrs yn addas i'w addysgu dros ddwy flynedd o fewn 120 o oriau dysgu o dan arweiniad.

Dylid cynllunio'r cwrs ar sail y Gofynion Iaith a restrir yn 2.1.

Trefnwyd y cyd-destun ar gyfer dysgu'r iaith ar sail **tair thema eang**:

- **CYFLOGAETH**
- **CYMRU A'R BYD**
- **IEUENCTID**

Wrth astudio'r cymhwyster hwn, dylai ymgeiswyr gael eu haddysgu am y cynnwys canlynol:

Gwranddo: deall ac ymateb i wahanol fathau o iaith lafar

- dangos dealltwriaeth o iaith lafar gan un neu fwy o siaradwyr mewn sefyllfaoedd cyhoeddus a chymdeithasol, er enghraifft sgysiau, cyflwyniadau, adroddiadau newyddion a rhaglenni teledu;
- deall y brif neges, y prif bwyntiau, manylion penodol a gwahanol safbwyntiau sy'n cael eu cyfathrebu ar lafar mewn darnau hir a byr.

Siarad: cyfathrebu a rhyngweithio'n effeithiol wrth siarad

- cyfathrebu a rhyngweithio'n ddigymell ac yn effeithiol at wahanol ddibenion, gan gynnwys cyfleu gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau barn, a gofyn ac ateb cwestiynau;
- defnyddio ystod o strategaethau i gefnogi a chynnal cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys gofyn cwestiynau er mwyn cael eglurhad o ystyr a chael gwybodaeth;
- cynnal sgysiau a thrafodaethau gan wneud cyfraniadau estynedig a chyfuno amrywiaeth o frawddegau a phatrymau iaith;
- defnyddio patrymau iaith a restrir yn y Gofynion Iaith;
- defnyddio gwahanol amserau'r ferf;
- addasu iaith yn briodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ac ystod o sefyllfaoedd, gan ddefnyddio cywair priodol, ynganu'n glir a goslefu'n briodol.

Darllen: deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig

- deall ac ymateb i iaith ysgrifenedig ar wahanol ffurfiau a ysgrifennwyd at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd, gan gynnwys gohebiaeth, erthyglau, gwybodaeth ar-lein, deunyddiau marchnata, testunau llenyddol, gwybodaeth ddiagramatig, gwybodaeth gyhoeddus a chyfarwyddyd;
- deall y brif neges, y prif bwyntiau, manylion penodol a gwahanol safbwyntiau mewn amrywiaeth o destunau ysgrifenedig hir a byr, syml a chymhleth, sydd yn defnyddio gwahanol amserau'r ferf;
- dirnad ystyr o fewn amrywiaeth o destunau ysgrifenedig hir a byr, gan gynnwys rhai sydd yn ymdrin â phynciau haniaethol, deunydd anghyfarwydd a pheth iaith fwy cymhleth, gan ddehongli ystyron ymhlyg lle bod hynny yn briodol;
- sganio am wybodaeth benodol o fewn deunydd ysgrifenedig estynedig ac aml-ffurf.

Ysgrifennu: cyfathrebu'n ysgrifenedig

- ysgrifennu'n effeithiol at wahanol ddibenion;
- ysgrifennu yn gywir wrth ddefnyddio brawddegau, patrymau iaith a geirfa syml a chyfarwydd i gyfleu ystyr a gwybodaeth yn effeithiol;
- ysgrifennu'n estynedig a dealladwy er mwyn cyfleu ffeithiau, syniadau a safbwyntiau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ac at wahanol ddibenion, gan gynnwys ysgrifennu disgrifiadol ac adroddiadol, perswadiol a chyfarwyddiadol, creadigol a dychmygus, beirniadol / mynegi barn;
- defnyddio ystod o wahanol ffurfiau ysgrifenedig, er enghraifft llythyrau, negeseuon e-bost, erthyglau, dyddiaduron, posteri, storïau a blogiau;
- defnyddio patrymau iaith a restrir yn y Gofynion Iaith;
- defnyddio gwahanol amserau'r ferf;
- gwneud defnydd creadigol o iaith, gan amrywio ac addasu geirfa a phatrymau iaith, arddull a chywair yn fwriadol at wahanol ddibenion;
- addasu iaith yn briodol, gan gynnwys iaith a chywair, ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ac ystod o sefyllfaoedd;
- cyfieithu testunau byr a syml o Saesneg i'r Gymraeg i gyfleu'r brif neges ac ystyr gan wneud defnydd cywir o iaith.

2.1 Gofynion iaith

Mae disgwyl y bydd ymgeiswyr, erbyn diwedd y cwrs, yn gallu deall a defnyddio'r elfennau canlynol wrth gyfathrebu yn y Gymraeg.

- | | |
|----------------------------------|---|
| 1. Berfau | Yr Amser Presennol
Yr Amser Perffaith
Yr Amser Amherffaith
Y Dyfodol
Y Gorffennol Rheolaidd
Y Gorffennol Afreolaidd
Yr Amser Amodol
Berau Diffygiol
Y Gorchmynnol |
| 2. Ansoddeiriau | Safle Ansoddeiriau
Ffuriau Benywaidd & Gwrywaidd
Ffuriau Lluosog
Goleddfu Ansoddeiriau
Cyffelybiaethau
Cymharu Ansoddeiriau |
| 3. Treigladau | Rheolau mwyaf cyffredin |
| 4. Rhagenwau | Rhagenwau Syml
Rhagenwau Blaen
Rhagenwau Dangosol |
| 5. Cysyllteiriau | |
| 6. Y Fannod | |
| 7. Adferau Amser | |
| 8. Cyfarchion | |
| 9. Rhifolion | Traddodiadol a Chyfoes
Ffuriau Benywaidd a Gwrywaidd
Rheolau yn ymwneud â 'blwydd' & 'blynedd' |
| 10. Arddodiaid | Arddodiaid Syml
Rheolau treiglo cyffredin
Arddodiaid & Berau
Rhedeg Arddodiaid mwyaf cyffredin |
| 11. Cymalau | Y Cymal Perthynol
Y Cymal Enwol |
| 12. Idiomau | |
| 13. Strwythurau Idiomatig | |
| 14. Enwau | Ffuriau Benywaidd a Gwrywaidd
FfuriauLluosog |
| 15. Cwestiynau | |

Dyma enghreifftiau o adnoddau sydd ar gael i addysgu'r gofynion iaith.

- 'Dim gobaith caneri'
Gwasg Carreg Gwalch / www.carreg-gwalch.com
- Gweithlen cylchgrawn *iaw!*
Medi a Hydref 2016 / www.urdd.org
- Dan y Ditectif Treigladau
Gwasg 'Dref Wen' / www.drefwen.com
- Seren Iaith 1 a 2
Gwasg @ebol / www.atebol.com
- Can Canllaw 1 a 2
Canolfan Peniarth / www.canolfanpeniarth.org
- Golwg ar Iaith (Non ap Emlyn)
CAA Prifysgol Aberystwyth / caa@aber.ac.uk
- Chwiliadur Iaith (Non ap Emlyn)
CAA Prifysgol Aberystwyth / caa@aber.ac.uk

Bydd adnoddau eraill ar gael hefyd ar wefan CBAC: www.cbac.co.uk

2.2 Uned 1: Ymateb ar lafar i sbardun gweledol

Asesiad Llafaredd (25%)
Siarad (10%) Gwrando (15%)
50 marc

Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr wyllo a gwrando ar sbardun gweledol gan gynnal trafodaeth ar yr hyn a wylwyd gyda phartner (6-8 munud) neu mewn grŵp o 3 (8-10 munud).

Bydd taflen ar gael i'r ymgeiswyr ei llenwi wrth wyllo'r clip. Adnodd i gynorthwyo ymgeiswyr yn yr asesiad yw'r daflen. Ni fydd y daflen yn cael ei hasesu oherwydd mai marciau am siarad a gwrando'n unig a roddir yn yr uned hon. Bydd disgwyl i'r daflen gael ei chadw gan yr athro/athrawes a'i hanfon gyda'r sampl i CBAC. Caiff y sbardun gweledol a'r daflen â lenwir gan yr ymgeisydd eu darparu gan CBAC.

Cyn yr asesiad diarholiad dylai'r ymgeiswyr fod yn cael digon o gyfleoedd yn ystod y cwrs i ymarfer eu sgiliau siarad a gwrando mewn grwpiau. Bydd manteisio ar gyfleoedd i gyflwyno a chyfnewid gwybodaeth, i wrando ac ymateb i gyfraniadau gan eraill, i fynegi barn am destunau amrywiol a chefnogi'r farn â thystiolaeth ac i gydadweithio ag eraill mewn grwpiau yn cyfoethogi eu profiadau, yn datblygu eu sgiliau siarad a gwrando, ac yn eu paratoi ar gyfer yr asesiad diarholiad.

Bydd yr asesiad yn cynnwys dwy ran i'w cynnal yn y drefn ganlynol:

- gwyllo sbardun gweledol (dwy waith)
- trafodaeth grŵp.

Bydd y tasgau yn ymdrin ag un o'r themâu eang (gweler tudalen 6).

Yn yr asesiad diarholiad disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu cymryd rhan mewn trafodaeth pâr/grŵp gan:

- ymateb i sbardun gweledol
- cyfathrebu a rhyngweithio'n ddigymell ag eraill
- gwrando ac ymateb i gyfraniadau gan eraill
- mynegi barn am bynciau amrywiol a chyfiawnhau barn.

Bydd yr athro yn cynnal yr asesiad ac anfonir sampl i CBAC i'w safoni.

Ni chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill mewn unrhyw ran o'r asesiad diarholiad.

2.3 Uned 2: Cyfathrebu ag eraill

Asesiad Llafaredd (25%)
Siarad (20%) Gwrando (5%)
50 marc

Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr ymateb ar lafar a gwrando ar gyfoedion trwy gydadweithio gyda phartner (6-8 munud) neu mewn grŵp o 3 (8-10 munud). Disgwylir i ymgeiswyr fynegi a chefnogi barn. Darperir y deunydd i symblu'r drafodaeth gan CBAC. Gall y deunydd gynnwys cyfuniad o graffiau, lluniau a thestunau darllen byr.

Cyn yr asesiad diarholiad dylai'r ymgeiswyr fod yn cael digon o gyfleoedd yn ystod y cwrs i ymarfer eu sgiliau llafar mewn grwpiau. Bydd manteisio ar gyfleoedd i gyflwyno a chyfnewid gwybodaeth, i wrando ac ymateb i gyfraniadau gan eraill, i fynegi barn am destunau amrywiol a chefnogi'r farn â thystiolaeth ac i gydadweithio ag eraill mewn grwpiau yn cyfoethogi eu profiadau, yn datblygu eu sgiliau siarad a gwrando, ac yn eu paratoi ar gyfer yr asesiad diarholiad.

Bydd y tasgau yn ymdrin ag un o'r themâu eang (gweler tudalen 6).

Yn yr asesiad diarholiad disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp gan:

- gyfathrebu a rhyngweithio'n ddigymell ag eraill
- gwrando ac ymateb i gyfraniadau gan eraill
- mynegi barn am bynciau amrywiol a chyfiawnhau barn.

Bydd yr athro yn cynnal yr asesiad ac anfonir sampl i CBAC i'w safoni.

Ni chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill mewn unrhyw ran o'r asesiad diarholiad.

2.4 Uned 3: Adroddiadol, penodol a chyfarwyddiadol

Arholiad Ysgrifenedig (25%)
Darllen (15%) Ysgrifennu (10%)
100 marc

Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr ymateb i amrywiaeth o gwestiynau. Asesir y darllen drwy ystod o gwestiynau strwythuredig ac asesir yr ysgrifennu at wahanol ddibenion gan gynnwys ysgrifennu adroddiadol, penodol a chyfarwyddiadol.

Mathau o gwestiynau – Gall y rhain gynnwys amlddewis gydag ymatebion di-eiriau; dewis gosodiadau cywir/anghywir; cwestiynau atebion byr; cwblhau gwybodaeth.

Fformatau a mathau o destunau – Asesir ymgeiswyr ar fformatau gwahanol o destun a allai gynnwys:

- testun parhaus, er enghraifft gohebiaeth, gwybodaeth ar-lein, deunyddiau marchnata, gwybodaeth ddiagramatig, gwybodaeth gyhoeddus, cyfarwyddyd, llythyrau ac erthyglau
- testun nad yw'n barhaus, er enghraifft tablau a graffiau, hysbysebion a ffurflenni
- testunau cymysg gydag elfennau o fformatau parhaus ac amharhaus, er enghraifft testun wedi'i gefnogi gan graff neu dabl
- testunau lluosog neu destunau byr sy'n gallu cael eu cysylltu â'i gilydd drwy gyd-destun neu gyfosod, er enghraifft hysbysebion gwesty. Gall y testunau gymeradwyo neu wrthddweud ei gilydd.

Bydd gofyn i ymgeiswyr gyfieithu un darn byr i'r Gymraeg (oddeutu 25 – 35 gair). Bydd hefyd gofyn i ymgeiswyr brawf ddarllen a chywiro testun byr arall (oddeutu 45 – 55 gair). Bydd y cwestiynau yn targedu agweddau penodol ar gynnwys y pwnc.

Bydd y tasgau yn ymdrin ag un o'r themâu eang (gweler tudalen 6).

Ni chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill yn yr arholiad.

2.5 Uned 4: Disgrifiadol, creadigol a dychmygus

Arholiad Ysgrifenedig (25%)
Darllen (10%) Ysgrifennu (15%)
100 marc

Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr ymateb i amrywiaeth o gwestiynau darllen ac ysgrifennu. Asesir y darllen drwy ystod o gwestiynau strwythuredig ac asesir yr ysgrifennu at wahanol ddibenion gan gynnwys disgrifiadol, creadigol a dychmygus.

Bydd angen i'r ymgeiswyr ysgrifennu gan ddangos ymwybyddiaeth o gynulleidfa a phwrpas gan ddefnyddio ystod o wahanol ffurfiau ysgrifenedig er enghraifft llythyrau, negeseuon e-bost, erthyglau, dyddiaduron, poster, storïau a blogiau.

Mathau o gwestiynau – Gall y rhain gynnwys amlddewis gydag ymatebion di-eiriau; dewis gosodiadau cywir/anghywir; cwestiynau atebion byr, cwblhau gwybodaeth.

Fformatau a mathau o destunau – Asesir ymgeiswyr ar fformatau gwahanol o destun a allai gynnwys:

- testun parhaus (llenyddiaeth), er enghraifft detholiadau wedi'u haddasu o nofelau, straeon byrion, cerddi, adolygiadau, gwybodaeth ar-lein, deunyddiau marchnata, llythyrau ac erthyglau
- testun nad yw'n barhaus, er enghraifft tablau a graffiau, hysbysebion a ffurflenni
- testunau cymysg gydag elfennau o fformatau parhaus ac amharhaus, er enghraifft esboniad mewn rhyddiaith wedi'i gefnogi gan graff neu dabl
- testunau lluosog neu destunau byr sy'n gallu cael eu cysylltu â'i gilydd drwy gyd-destun neu gyfosod, er enghraifft hysbysebion gwesty. Gall y testunau gymeradwyo neu wrthddweud ei gilydd.

Bydd y tasgau yn ymdrin ag un o'r themâu eang (gweler tudalen 6).

Ni chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill yn yr arholiad.

3 ASESU

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Rhaid i ymgeiswyr ddangos eu gallu i:

AA1

Siarad – cyfathrebu a rhyngweithio'n effeithiol mewn gwahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau amrywiol

AA2

Gwranddo – deall ac ymateb i wahanol fathau o iaith lafar mewn cyd-destunau amrywiol

AA3

Darllen – deall ac ymateb i amrywiaeth o iaith ysgrifenedig mewn ystod o gyd-destunau

AA4

Ysgrifennu – cyfathrebu'n effeithiol at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob cydran ac am y cymhwyster yn gyffredinol.

	AA1	AA2	AA3	AA4	Cyfanswm
Uned 1	10%	15%	-	-	25%
Uned 2	20%	5%	-	-	25%
Uned 3	-	-	15%	10%	25%
Uned 4	-	-	10%	15%	25%
Cyfanswm	30%	20%	25%	25%	100%

3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad diartholiad

Mae Uned 1 ac Uned 2 yn asesiad diartholiad.

Uned 1: Ymateb ar lafar i sbardun gweledol

Mae'r asesiad diartholiad yn cyfrif am 25% o'r cymhwyster TGAU hwn. Rhaid cynnal pob asesiad diartholiad o dan amodau rheoleddig fel y nodir isod, ac yn unol â gofynion rheoleiddio.

Ni chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill mewn unrhyw ran o'r asesiad diartholiad

Asesir Uned 1 ar ddyddiadau penodol a benderfynir gan CBAC. Neilltuir tri diwrnod penodol ar gyfer yr asesiad diartholiad. Dylid asesu'n rheolaidd gyrhaeddiad yr ymgeiswyr. Ar sail adnabyddiaeth athrawon o'r ymgeiswyr dylid ffurfio grwpiau nad ydynt yn cynnwys mwy na thri ymgeisydd. Cyfrifoldeb y ganolfan yw safoni marciau'r ymgeiswyr o fewn y ganolfan.

Gosod y dasg

Gosodir y tasgau gan CBAC. Bydd tasgau yn cyrraedd canolfannau mewn da bryd i weinyddu'r asesiad ar ddyddiadau penodol yn nhymor y gwanwyn neu'r haf (yn dibynnu ar ddyddiad y Pasg bob blwyddyn). Caiff yr asesiadau eu cynnal a'u marcio gan athrawon yn y canolfannau. Dylid recordio'r ymgeiswyr i gyd yn ddigidol.

Bydd angen peiriant DVD neu gyfrifiadur sydd â'r feddalwedd 'Windows Media Player' arno er mwyn gweithio'r disg sy'n cynnwys y sbardun gweledol.

Gwneud y dasg

Bydd yr asesiad yn cynnwys dwy ran i'w cynnal yn y drefn ganlynol:

- gwylio **sbardun gweledol** (oddeutu 2 funud) dwy waith
- trafodaeth grŵp.

Bydd y tasgau yn ymdrin ag un o'r themâu eang (gweler tudalen 6).

Dylid llunio amserlen – hyd at 10 munud i bob grŵp.

Y drefn ar ddiwrnod yr asesiad

Agor y pecynnau (ar ddiwrnod yr asesiad) sydd yn cynnwys y cwestiynau ar gyfer y drafodaeth pâr/grŵp o dri:

Pecyn A / B diwrnod 1
Pecyn C / CH diwrnod 2
Pecyn D / DD diwrnod 3

Caiff yr athro/athrawes sy'n cynnal yr asesiad edrych ar y DVD 30 munud cyn dechrau asesu'r pâr/grŵp cyntaf.

Dylid:

- Caniatáu i'r pâr/grŵp cyntaf baratoi (hyd at 10 munud o dan oruchwyliaeth). Caniateir i'r ymgeiswyr drafod a gwneud nodiadau yn ystod y cyfnod hwn. **Ni chaniateir i ymgeiswyr fynd ag unrhyw nodiadau a wnaed yn flaenorol nac adnoddau/geiriaduron i'r ystafell baratoi.**
- Dylai'r ymgeiswyr wyllo'r **sbardun gweledol** ddwy waith. Caniateir i'r ymgeiswyr wneud nodiadau yn yr ystafell baratoi ar y daflen a roddir iddynt a gellir mynd â'r daflen honno'n unig i mewn i'r asesiad. Bydd taflen benodol yn cyd-fynd â'r **sbardun gweledol**. Gellir cyfeirio at y daflen yn ystod yr asesiad. Bydd y daflen yn cael ei rhoi i'r athro ar ddiwedd yr asesiad a dylai'r ganolfan eu cadw nes ddiwedd y cyfnod Ymholiadau am Ganlyniadau. Dylid cyflwyno taflenni'r ymgeiswyr sy'n rhan o'r sampl gyda'r gwaith llafar i CBAC ar ddyddiad penodedig ym mis Mai.
- Galw'r pâr/grŵp cyntaf i mewn (y pâr/grŵp nesaf i ddechrau paratoi).
- Sicrhau bod pawb yn gyfforddus ac yn eistedd mewn hanner cylch.
- Dechrau'r asesiad trwy nodi enwau a rhifau arholiad yr ymgeiswyr ac yna gofyn i'r ymgeiswyr gyflwyno eu hunain.
- Gofyn i'r ymgeiswyr drafod yr hyn a wylwyd. Dylid caniatáu iddynt wneud hynny'n weddol annibynnol er y gellir ymyrryd ar adegau er mwyn symud y drafodaeth yn ei blaen neu er mwyn ceisio sicrhau bod yr ymgeiswyr yn rhoi o'u gorau, yn cyfeirio at y clip, ac yn ateb gofynion y cynllun marcio.
(Disgwylir i drafodaeth rhwng pâr barhau am tua 6 – 8 munud a grŵp o dri barhau am tua 8 – 10 munud).

Marcio'r dasg

Disgwylir i'r athro/athrawes farcio'r dasg o gyfanswm o **50**. **Gellir gwobrwyo** hyd at 30 o farciau am wrando a hyd at 20 marc am siarad (gweler Atodiad 1, tudalen 21 a 22).

Y Sampl Cymedroli

Caiff sampl o'r gwaith a safonir yn allanol ei ddewis gan CBAC. Bydd y sampl yn adlewyrchu'r holl ystod gallu. Dylid ysgrifennu'n glir ar y recordiadau a gyflwynir rif ac enw'r ganolfan yn ogystal ag enwau a rhifau'r ymgeiswyr.

Darperir canllawiau pellach i athrawon neu ganolfannau unigol pan na fyddant yn cwrdd â gofynion CBAC. Os oes angen, gellir gofyn am sampl pellach ar gais y safonwr. Os bydd problem ddifrifol yn codi, gall CBAC argymhell monitro gwaith y ganolfan a'r broses safoni cyhyd ag y tybir fod angen gwneud hynny.

Cyflwyno Marciau

Cyflwynir marciau pob ymgeisydd i CBAC erbyn dyddiad penodedig.

Uned 2: Cyfathrebu ag eraill

Mae'r asesiad diarholiad yn cyfrif am 25% o'r cymhwyster TGAU hwn. Rhaid cynnal pob asesiad diarholiad o dan amodau rheoledig fel y nodir isod, ac yn unol â gofynion rheoleiddio.

Ni chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau mewn unrhyw ran o'r asesiad diarholiad

Asesir Uned 2 ar ddyddiadau penodol a benderfynir gan CBAC. Neilltuir tri diwrnod penodol ar gyfer yr asesiad diarholiad. Dylid asesu'n rheolaidd gyrhaeddiad yr ymgeiswyr. Ar sail adnabyddiaeth athrawon o'r ymgeiswyr dylid ffurfio grwpiau nad ydynt yn cynnwys mwy na thri ymgeisydd. Cyfrifoldeb y ganolfan yw safoni marciau'r ymgeiswyr o fewn y ganolfan.

Gosod y dasg

Gosodir y tasgau gan CBAC. Bydd tasgau yn cyrraedd canolfannau mewn da bryd i weinyddu'r asesiad ar ddyddiadau penodol yn nhymor y gwanwyn neu'r haf (yn dibynnu ar ddyddiad y Pasg bob blwyddyn). Caiff yr asesiadau eu cynnal a'u marcio gan athrawon yn y canolfannau. Dylid recordio'r ymgeiswyr i gyd yn ddigidol.

Gwneud y dasg

Bydd y tasgau yn ymdrin ag un o'r themâu eang (gweler tudalen 6).

Dylid llunio amserlen – hyd at 10 munud i bob grŵp.

Y drefn ar ddiwrnod yr asesiad

Agor y pecynnau (ar ddiwrnod yr asesiad) sydd yn cynnwys y cwestiynau sbardun ar gyfer y drafodaeth pâr/grŵp o dri:

Papur A bore diwrnod 1/ Papur B prynhawn diwrnod 1
Papur C bore diwrnod 2/ Papur CH prynhawn diwrnod 2
Papur D bore diwrnod 3/ Papur DD prynhawn diwrnod 3

Bydd taflen i'r athro/athrawes yn cael ei darparu gan CBAC gyda chyingor a chwestiynau y gellir eu gofyn er mwyn symud y drafodaeth yn ei blaen ac i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn rhoi o'u gorau.

Dylid:

- Caniatáu i'r pâr/grŵp cyntaf baratoi (hyd at 10 munud o dan oruchwyliaeth). **Ni chaniateir i ymgeiswyr fynd ag unrhyw nodiadau a wnaed yn flaenorol nac adnoddau/geiriaduron i'r ystafell baratoi.** Caniateir i'r ymgeiswyr wneud nodiadau yn yr ystafell baratoi a gellir mynd â'r nodiadau hynny'n unig i mewn i'r asesiad.
- Galw'r pâr/grŵp cyntaf i mewn (y pâr/grŵp nesaf i ddechrau paratoi).
- Sicrhau bod pawb yn gyfforddus ac yn eistedd mewn hanner cylch.
- Dechrau'r asesiad trwy nodi enwau a rhifau arholiad yr ymgeiswyr ac yna gofyn i'r ymgeiswyr gyflwyno eu hunain.
- Gofyn i'r ymgeiswyr drafod yr asesiad. Dylid caniatáu iddynt wneud hynny'n weddol annibynnol er y gellir ymyrryd ar adegau er mwyn symud y drafodaeth yn ei blaen neu er mwyn ceisio sicrhau bod yr ymgeiswyr yn rhoi o'u gorau ac yn ateb gofynion y cynllun marcio. **(Disgwylir i drafodaeth rhwng pâr barhau am tua 6 – 8 munud a grŵp o dri barhau am tua 8 – 10 munud).**

Marcio'r dasg

Disgwylir i'r athro/athrawes farcio'r dasg o gyfanswm o **50. Gellir gwobrwyo** hyd at 10 o farciau am wrando a hyd at 40 marc am siarad (gweler Atodiad 2, tudalen 23 a 24).

Y Sampl Cymedroli

Caiff sampl o'r gwaith a safonir yn allanol ei ddewis gan CBAC. Bydd y sampl yn adlewyrchu'r holl ystod gallu. Dylid ysgrifennu'n glir ar y recordiadau a gyflwynir rif ac enw'r ganolfan yn ogystal ag enwau a rhifau'r ymgeiswyr.

Darperir canllawiau pellach i athrawon neu ganolfannau unigol pan na fyddant yn cwrdd â gofynion CBAC. Os oes angen, gellir gofyn am sampl pellach ar gais y safonwr. Os bydd problem ddifrifol yn codi, gall CBAC argymhell monitro gwaith y ganolfan a'r broses safoni cyhyd ag y tybir fod angen gwneud hynny.

Cyflwyno marciau

Cyflwynir marciau pob ymgeisydd i CBAC erbyn dyddiad penodedig.

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Manyleb ag unedau yw hon sy'n caniatáu elfen o asesu fesul cam. Bydd Uned 1 yn unig ar gael yn haf 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny tan ddiwedd oes y fanyleb hon). Bydd yr unedau eraill ar gael yn haf 2019 (a phob blwyddyn wedi hynny tan ddiwedd oes y fanyleb hon).

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Defnyddir y marc unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol cyhyd ag y bodlonir y **rheol derfynol** yn gyntaf h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r rhan leiaf o'r asesiad sy'n ofynnol i ennill cymhwyster yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi. Pennir y rheol derfynol ar 75% o'r cymhwyster cyffredinol yn achos TGAU Cymraeg Ail Iaith. Mae hyn yn golygu bod gofyn sefyll o leiaf 75% o'r asesiad pan fydd graddau'n cael eu cyfnewid, gan gynnwys uned 3 a 4. Os yw'r asesiad sy'n cael ei ailgymryd yn cyfrannu at y gofyniad rheol derfynol o 75%, marc yr asesiad newydd fydd yn cyfrif.

Os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru amdani am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan gaiff cymhwyster ei ailgymryd (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agereu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau unedau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Rhaid i o leiaf 75% o'r asesiad gael ei gymryd pan yn cyfnewid graddau y cymhwyster, gan gynnwys uned 3 a 4.

Pe dymunir, gall 100% o'r cymhwyster gael ei sefyll ym mlwyddyn olaf y cwrs.

Teitl	Codau cofrestru
Uned 1: Ymateb ar lafar i sbardun gweledol	3020U1
Uned 2: Cyfathrebu ag eraill	3020U2
Uned 3: Adroddiadol, penodol a chyfarwyddiadol	3020U3
Uned 4: Disgrifiadol, creadigol a dychmygus	3020U4
Cyfnewid cymhwyster TGAU	3020QS

Rhoddir y gweithdrefnau cofrestru diweddaraf yn ein fersiwn cyfredol o'r ddogfen *Gweithdrefnau Cofrestru a Gwybodaeth am Godau*.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Caiff cymwysterau TGAU eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A* i G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd cyrhaeddiad disgyblion na fyddant yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf bosibl i ennill gradd yn cael ei gofnodi â'r llythyren U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Mae gan ganlyniadau am uned hyd oes a gyfyngir gan hyd oes y fanyleb yn unig. Gall ymgeisydd ailsefyll y cymhwyster cyfan fwy nag unwaith.

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) â'r cyfwerthoedd graddau canlynol:

	GRADD UCHAF.	A*	A	B	C	D	E	F	G
Uned 1	100	90	80	70	60	50	40	30	20
Uned 2	100	90	80	70	60	50	40	30	20
Uned 3	100	90	80	70	60	50	40	30	20
Uned 4	100	90	80	70	60	50	40	30	20
Dyfarniad Pwnc	400	360	320	280	240	200	160	120	80

ATODIAD 1

Cynllun marcio Uned 1

Marc	AA1 – Gwrando
25 – 30	- Gwrando ac ymateb gyda chyfraniadau perthnasol - Deall mewn manylder gwahanol fathau o iaith lafar o'r sbardun gweledol a siaredir gan fwy nag un o'r siaradwyr - Deall yn llawn y brif neges a manylion penodol sy'n cael eu cyfathrebu ar lafar - Ymateb yn llawn i wahanol fathau o iaith lafar gan un neu'n fwy o siaradwyr
19 – 24	- Gwrando ac ymateb gyda chyfraniadau perthnasol - Deall mewn peth manylder gwahanol fathau o iaith lafar o'r sbardun gweledol a siaredir gan fwy nag un o'r siaradwyr - Deall yn weddol llawn y brif neges a manylion penodol sy'n cael eu cyfathrebu ar lafar - Ymateb yn weddol llawn i wahanol fathau o iaith lafar gan un neu'n fwy o siaradwyr
13 – 18	- Gwrando ac ymateb gyda chyfraniadau perthnasol - Deall gwahanol fathau o iaith lafar o'r sbardun gweledol a siaredir gan fwy nag un o'r siaradwyr - Deall y brif neges a manylion penodol sy'n cael eu cyfathrebu ar lafar - Ymateb yn syml i wahanol fathau o iaith lafar gan un neu'n fwy o siaradwyr
7 – 12	- Gwrando ar eraill ac ymateb gyda rhai cyfraniadau - Deall ychydig o wahanol fathau o iaith lafar o'r sbardun gweledol a siaredir gan fwy nag un o'r siaradwyr - Deall y rhan fwyaf o'r brif neges a'r mwyafrif o'r manylion penodol sy'n cael eu cyfathrebu ar lafar - Ymateb yn syml iawn i wahanol fathau o iaith lafar gan un neu'n fwy o siaradwyr
1 – 6	- Gwrando ar eraill gan wneud ymdrech i ymateb gydag ambell gyfraniad - Deall ychydig iawn o wahanol fathau o iaith lafar o'r sbardun gweledol a siaredir gan fwy nag un o'r siaradwyr - Deall ychydig o'r brif neges a pheth manylion penodol sy'n cael eu cyfathrebu ar lafar - Ymdrech i ymateb i wahanol fathau o iaith lafar gan un neu'n fwy o siaradwyr
0	- Amhriodol neu heb ymateb

Marc	AA2 – Siarad
17 – 20	- Cyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus ac yn ddigymell gan gyfleu gwybodaeth o'r sbardun gweledol, mynegi a chyfiawnhau barn yn llawn - Defnyddio ystod eang o strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth yn hynod o lwyddiannus gan sicrhau cyfraniadau cyson - Defnyddio ystod eang o batrymau iaith yn gywir a defnyddio ystod o wahanol amserau'r ferf - Defnyddio cywair priodol, ynganu'n gywir a goslefu'n addas
13 – 16	- Cyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus ac yn ddigymell gan gyfleu gwybodaeth o'r sbardun gweledol, mynegi a chyfiawnhau barn yn llawn - Defnyddio ystod o strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth yn llwyddiannus gan sicrhau cyfraniadau cyson - Defnyddio ystod o batrymau iaith yn gywir a defnyddio gwahanol amserau'r ferf - Defnyddio cywair priodol, ynganu gywir a goslefu'n addas
9 – 12	- Cyfathrebu a rhyngweithio gyda pheth hyder ac ychydig o anogaeth gan gyfleu gwybodaeth o'r sbardun gweledol, mynegi a chyfiawnhau barn yn eitha llawn - Defnyddio strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth gan wneud cyfraniadau - Defnyddio patrymau iaith yn gywir ac yn amrywio peth ar amser y ferf - Defnyddio cywair priodol, ynganu eitha cywir a goslefu'n addas
5 – 8	- Cyfathrebu a rhyngweithio gydag ychydig o anogaeth gan gyfleu peth gwybodaeth o'r sbardun gweledol, mynegi a chyfiawnhau peth barn - Defnyddio rhai strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth gan wneud rhai cyfraniadau - Defnyddio patrymau iaith syml yn gywir ac amrywio ambell amser y ferf - Ynganu'r mwyafrif o'r geiriau'n gywir
1 – 4	- Ymateb i anogaeth uniongyrchol drwy roi ambell ddarn o wybodaeth o'r gweledol a mynegi ambell farn - Defnyddio ambell strategaeth i gefnogi a chynnal sgwrs gan wneud ambell gyfraniad - Defnyddio ambell batrwm iaith syml yn weddol gywir - Ynganu'r mwyafrif o'r geiriau'n weddol gywir
0	Amhriodol neu heb ymateb. Nid yw'r wybodaeth ofynnol yn cael ei chyfathrebu o gwbl

ATODIAD 2

Cynllun marcio Uned 2

Marc	AA1 - Gwrando
8 - 10	- Gwrando a chyd-adweithio ag eraill yn effeithiol iawn - Deall cyfraniadau eraill mewn manylder - Ymateb yn llawn i'r dasg gyda chyfraniadau perthnasol a threiddgar
6 - 7	- Gwrando a chyd-adweithio ag eraill yn effeithiol - Deall cyfraniadau eraill mewn manylder - Ymateb yn weddol iawn i'r dasg gyda chyfraniadau perthnasol
4 - 5	- Gwrando a chyd-adweithio ag eraill yn ddigonol - Deall cyfraniadau eraill mewn peth manylder - Ymateb i'r dasg gyda rhai cyfraniadau elfennol
1 - 3	- Gwrando a chyd-adweithio ag eraill yn achlysurol - Deall rhai o gyfraniadau eraill - Ymdrech i ymateb i'r dasg gydag ambell i gyfraniad syml.
0	Amhriodol neu heb ymateb

Marc	AA2 - Siarad
33 - 40	- Cyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus ac yn ddigymell gan gyfleu gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau barn yn llawn - Defnyddio ystod eang o strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth yn hynod o lwyddiannus gan sicrhau cyfraniadau cyson - Defnyddio ystod eang o batrymau iaith syml yn gywir a defnyddio ystod o wahanol amserau'r ferf - Defnyddio cywair priodol, ynganu a goslefu'n hynod o glir
25 - 32	- Cyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus ac yn ddigymell gan gyfleu gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau barn yn llawn - Defnyddio ystod o strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth yn llwyddiannus gan sicrhau cyfraniadau cyson - Defnyddio ystod o batrymau iaith syml yn gywir a defnyddio gwahanol amserau'r ferf - Defnyddio cywair priodol, ynganu a goslefu'n glir
17 - 24	- Cyfathrebu a rhyngweithio gyda pheth hyder ac ychydig o gymhelliant gan gyfleu gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau barn yn eitha llawn - Defnyddio strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth gan wneud cyfraniadau - Defnyddio patrymau iaith syml yn gywir ac yn amrywio peth ar amser y ferf - Defnyddio cywair priodol, ynganu a goslefu'n weddol glir
9 - 16	- Cyfathrebu a rhyngweithio gydag ychydig o gymhelliant gan gyfleu peth gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau peth barn yn weddol glir - Defnyddio rhai strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs a thrafodaeth gan wneud rhai gyfraniadau - Defnyddio patrymau iaith syml yn eitha cywir ac amrywio ambell amser y ferf - Ynganu'r mwyafrif o'r geiriau'n glir
1 - 8	- Ymateb i gymhelliant uniongyrchol drwy roi ambell ddarn o wybodaeth a mynegi ambell farn - Defnyddio ambell strategaeth i gefnogi a chynnal sgwrs gan wneud ambell gyfraniad - Defnyddio ambell batrwm iaith syml yn weddol gywir - Ynganu'r mwyafrif o'r geiriau'n weddol glir
	Amhriodol neu heb ymateb. Nid yw'r wybodaeth ofynnol yn cael ei chyfathrebu o gwbl